Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Hywel Dda**
**Ysgol Gynradd Llys Hywel**
**Hendygwyn ar Daf**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0QB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Hywel Dda yn cyfarfod mewn caban ar safle Ysgol Gynradd Llys Hywel yn nhref Hendygwyn-ar-daf, Sir Gaerfyrddin. Mae ar agor am bedwar bore'r wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 19 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 12 o blant dwy a hanner a thair oed ar y gofrestr, gyda naw ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Daw bron pob un o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae dau aelod parhaol o staff. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae un aelod ychwanegol o staff sy'n fyfyrwraig o dan hyfforddiant. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2006.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Chwefror 2014 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod addas o fedrau llythrennedd a rhifedd
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau corfforol a chreadigol
- Mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda
- Mae'r holl blant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol
- Mae gweithgareddau symbylus yn sicrhau ymglymiad a mwynhad y plant yn eu dysgu
- Mae'r defnydd celfydd o sesiynau amser cylch i hybu medrau iaith a rhifedd y plant yn nodwedd ragorol o'r addysgu
- Mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad ac yn arwain trwy esiampl
- Mae defnydd adeiladol o fedrau'r ymarferwyr yn arwain at waith tîm effeithiol
- Mae'r pwyllgor rheoli a'r swyddogion yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Mae dealltwriaeth sicr gan yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r prif feysydd i'w gwella
- Mae'r cynllun datblygu yn gosod blaenoriaethau priodol yn cynnwys datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach
- Mae partneriaeth agos gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned yn cynorthwyo dysgu a lles y plant yn effeithiol

## Argymhellion

A1. Cryfhau medrau llafar Cymraeg y plant ymhellach

A2. Mireinio'r cynllunio i ddangos datblygiad medrau'r plant yn glir

A3. Datblygu'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy roi mwy o sylw i agweddau ar yr addysgu a'r dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac maent yn ymateb yn gyflym ac yn gywir i gyfarwyddiadau. Mae'r dysgwyr Cymraeg yn dangos dealltwriaeth dda o gwestiynau a sylwadau'r oedolion ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r plant yn gwybod nifer dda o ganeuon a rhigymau ac yn eu hailadrodd yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau. Mae ychydig o blant yn dechrau ysgrifennu eu henwau yn annibynnol ac yn cofnodi sylw byr i gynnwys ar eu lluniau a phaentiadau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn gywir. Mae bron pob un yn adnabod eu henwau mewn print. Mae ychydig o blant yn gwneud cynnydd da iawn wrth adnabod llythrennau'r wyddor ac yn medru cynnig geiriau sydd yn dechrau gyda llythrennau gwahanol yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Gallant ddidoli a chyfateb gwrthrychau yn ôl siâp, maint neu liw yn dda. Gall y rhan fwyaf o blant gyfrif yn hyderus i fyny i ddeg, gyda rhai unigolion yn cyfrif tu hwnt i hynny. Mae ychydig o blant yn adnabod rhifolion hyd at bump a gyda chymorth yn eu gosod mewn trefn yn gywir. Mae'r mwyafrif o'r plant yn deall ystyr termau mathemategol, megis mawr, bach, trwm, llawn mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn dechrau deall pwrpas arian drwy brofiadau megis talu am nwyddau ar ymweliad â'r siop ffrwythau. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud defnydd priodol o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i recordio sylwadau am y tywydd, symud gwrthrychau ar y sgrin ac ysgrifennu eu henwau, er enghraifft.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau datrys problemau mewn gweithgareddau megis defnyddio chwyddwydrau i chwilio am drychfilod yn yr ardal allanol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o'r amodau sydd eu hangen ar flodau'r haul i dyfu'n gryf. Maent yn adnabod y newidiadau sy'n digwydd ac yn llwyddo i roi lluniau yn y drefn gywir i ddangos y camau wrth iddynt dyfu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn defnyddio offer torri, peintio a gludo gyda rheolaeth dda. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau creadigol wrth gynhyrchu paentiadau amrywiol gan gynnwys paentio hunan bortreadau ac efelychu gwaith arlunydd enwog. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn o safon dda iawn.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymagweddau da tuag at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n briodol ac yn dyfalbarhau gyda'u gweithgareddau am gyfnodau addas o amser. Maent yn cyd-chwarae'n hapus yn y gwahanol ardaloedd gan aros eu tro a rhannu offer. Maent yn dewis gweithgareddau chwarae yn hyderus ac yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i weithio'n annibynnol. Maent yn ymddwyn yn dda.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas agos gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Mae lefelau presenoldeb yn gyffredinol dda.

Mae llawer o'r plant yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Gwyddant fod ffrwythau a llysiau yn fwydydd iach ac y dylid bwyta ond ychydig o siocled. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byrbrydau.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis ymweld â siopau'r pentref, cymryd rhan mewn cyngherddau i'r rhieni ac ymuno mewn gweithgareddau gyda'r ysgol gynradd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau symbylus sy'n ennill diddordeb ac ymglymiad y plant yn eu dysgu. Mae'r gweithgareddau wedi'u seilio ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r arweinydd a'r gynorthwywraig yn paratoi cynlluniau dyddiol eithaf manwl sy'n nodi amcanion priodol ac yn amlinellu'r gweithgareddau a fydd ar gael i'r plant. Weithiau, nid yw'r cynllunio yn dangos yn ddigon clir sut mae medrau'r plant yn cael eu hyrwyddo'n gyson. Mae cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu at y cynllunio.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau ehangach y plant ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol are u dysgu. Mae anogaeth barhaus i'r plant ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, ymuno mewn caneuon a defnyddio eu medrau marcio. Mae defnydd adeiladol o ymweliadau â llyfrgell y dref i hybu diddordeb y plant mewn llyfrau gwahanol.

Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, yn ystod ymweliadau, ac yn eu chwarae. Yn ystod ymweliad â'r siop ffrwythau, er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd pwrpasol i arsylwi a thrafod rhifau a welir ar y daith. Mae ymchwilio am wrthrychau gwahanol yn yr awyr agored, eu cyfrif a'u dosbarthu yn ôl lliw yn hybu medrau meddwl a mathemategol y plant yn effeithiol. Mae profiadau buddiol i'r plant ddatblygu ystod o fedrau TGCh sylfaenol.

Mae profiadau pwrpasol, yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant am draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus.

Mae defnydd effeithiol o ymweliadau a chyfraniadau pobl o'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Trwy gyfarfod a siarad gydag aelod o'r heddlu, er enghraifft, ac ymweld â chanolfan y frigâd dan a garej, mae'r plant yn datblygu eu gwybodaeth am fyd gwaith ac am y rolau y mae pobl yn eu cyflawni yn y gymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn brofiadol iawn ac maent yn gwbl ymwybodol o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cynnal cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a'r gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis. Mae defnydd effeithiol o ystod o strategaethau ac o adnoddau pwrpasol i gefnogi dysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n bwrpasol gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant yn gyson, yn cyflwyno geirfa newydd ac yn cefnogi'r dysgwyr Cymraeg i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith yn eu chwarae. Mae'r ffordd gelfydd y mae'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ystod amser cylch yn nodwedd ragorol. Mae'r ardal gofrestru, er enghraifft, yn newid yn gyson i gyd fynd â'r thema gydag enwau'r plant a rhifau penodol yn cael eu cyflwyno ar ffurf lluniau gwahanol sy'n adlewyrchu'r thema. Mae hyn yn denu diddordeb y plant ac yn cynnig her ychwanegol iddynt sy'n cryfhau eu dysgu.

Mae gweithdrefnau addas i asesu a chofnodi cynnydd a chyflawniad y plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad cyffredinol yn fanwl. Maent yn arsylwi ar gynnydd ac ymateb y plant yn rheolaidd ac yn cofnodi eu harsylwadau'n glir. Mae defnydd addas o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio gweithgareddau, yn bennaf ar gyfer grwpiau bach ac unigolion, ac i osod targedau personol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn casglu enghreifftiau o waith y plant, wedi'u hanodi, mewn ffolderi personol sy'n gofnod defnyddiol o'u datblygiad.

Caiff rhieni eu hysbysu am ddatblygiad eu plant yn briodol drwy sgyrsiau a thrwy adroddiadau llawn gwybodaeth. Mae'r gweithdrefnau trosglwyddo yn cynnwys ymweliadau buddiol gan y plant â'r ysgol gynradd a thrafodaethau rhwng y staff.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i gynnal a chefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae'r plant yn cael eu hannog yn llwyddiannus i fwyta'n iach ac i ofalu am eu hylendid personol.

Mae profiadau o ansawdd da yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd, megis bod yn garedig, gofalu am eraill a dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir, yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae'r profiadau hyn, yn ogystal â gwrando ar storïau o'r Beibl a chymryd rhan mewn dathliadau'r cynhaeaf a'r Nadolig er enghraifft, yn cyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad ysbrydol a moesol.

Mae darpariaeth briodol i ddatblygu gwybodaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol trwy ddathlu gwyliau megis Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r cyfleoedd i ddysgu am anifeiliaid Affrica yn cyfrannu ymhellach at hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach.

Mae'r cyfleoedd i dyfu planhigion ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan fydd angen.  Mae'r cysylltiadau agos gyda gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau iechyd, yn sicrhau cyngor a chefnogaeth briodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd cynnes lle mae'r holl blant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel.  O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n gyflym ac maent yn hyderus i ymuno yn yr ystod o weithgareddau sydd ar gael.  Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer briodol o ymarferwyr profiadol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.  Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws y meysydd dysgu.  Mae'r ystod adnoddau TGCh yn fwy cyfyng.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau addas ac mae defnydd pwrpasol o neuadd ac ardal chwarae offer mawr yr ysgol gynradd i ymestyn profiadau dysgu'r plant.  Mae ardaloedd gweithgareddau wedi'u trefnu'n addas o amgylch yr ystafell ac yn hyrwyddo dysgu annibynnol.  Mae'r arddangosfeydd o samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar.  Mae'r ardal fechan awyr agored yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymchwilio a chwarae, ac i wrando ar storïau.  Mae'r adeilad a'r safle yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn arwain trwy esiampl ac yn dangos ymrwymiad cadarn i addysg a lles y plant.  Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm.  Mae hyn yn llwyddo i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant.  Maent yn rhannu amcanion a gwerthoedd eglur sy'n cael eu hadlewyrchu yn ethos a gwaith y lleoliad.  Mae polisïau a gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith yn ofalus.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth effeithiol i'r ymarferwyr.  Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach.  Mae rhai aelodau yn ymwelwyr rheolaidd sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'r ddarpariaeth.  Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Mae'r drefn sefydlog o gynnal cyfarfodydd staff ar gyfer cyd-drafod y thema a'r gweithgareddau i'w cyflwyno yn hyrwyddo gwelliannau mewn agweddau ar y gwaith. Mae cynnydd y plant yn cael ei werthuso'n adeiladol drwy ystyried arsylwadau'r ymarferwyr a thrafod y cofnodion. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau yn rhoi digon o ystyriaeth i'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae sylw priodol i ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau clir, yn gosod amserlen, ac yn amlinellu cyfrifoldebau. Caiff y cynllun ei weithredu'n briodol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol a dadansoddi'r holiaduron blynyddol, sy'n gefnogol. Mae agweddau ar y ddarpariaeth yn cael eu monitro'n adeiladol gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog datblygu Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad drwy'r sgyrsiau dyddiol, yr hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron.

Mae partneriaeth gadarnhaol iawn gyda'r ysgol gynradd leol. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'r cyswllt agos gyda'r pennaeth a staff yr ysgol. Mae hyn yn cynorthwyo plant i symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg yn hyderus. Mae'r defnydd o gyfleusterau'r ysgol o gymorth mawr i'r lleoliad.

Mae'r perthynas waith adeiladol gyda'r pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn cyfrannu at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn dylanwadu'n effeithiol ar ddysgu'r plant. Mae'r defnydd cynhyrchiol o ymweliadau ac o gyfraniad ymwelwyr yn ymestyn profiadau'r plant yn llwyddiannus. Mae cefnogaeth dda o'r gymuned ar gyfer gweithgareddau codi arian, er enghraifft, a chynorthwyo gyda rhai gwelliannau i'r caban. Mae croeso cynnes mewn siopau lleol i arddangos gwaith y plant, megis hetiau a chardiau Pasg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae defnydd adeiladol o amser a medrau'r ymarferwyr. Mae defnydd effeithiol o ddiddordebau unigolion ar gyfer arwain a chefnogi profiadau dysgu megis gweithgareddau creadigol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd cynhyrchiol o adnoddau i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant.  Gwnânt ddefnydd priodol o'r hyfforddiant i hybu medrau iaith y plant, er enghraifft.  Mae defnydd adeiladol o gyfarfodydd i arweinyddion lleoliadau i drafod materion cyffredin a datblygiadau newydd.

Mae gan y trysorydd a'r arweinydd  ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad.  Mae defnydd effeithiol o ddigwyddiadau codi arian i ychwanegu at yr adnoddau.  Mae'r caban bach allanol ar gyfer sesiynau stori wedi deillio o'r ymdrechion hyn.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth gadarn, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |